# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Lleoliad allanol** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 9 Hydref 2014** |
| Amser: | **13. - 15.30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/ee4f56e2-9fcc-4bc8-aed3-2df2e1085076?autostart=True

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:
MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding AC (Cadeirydd)**<br>**Elin Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC)**<br>**Paul Davies AC**<br>**Joyce Watson AC (yn lle Ann Jones AC)**<br>**Eluned Parrott AC** |
| Tystion: | **Carys Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru**<br>**Carwyn Jones AC, Y Prif Weinidog** |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Alys Thomas (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jocelyn Davies ac Ann Jones. Dirprwyodd Elin Jones ar ran Jocelyn Davies a dirprwyodd Joyce Watson ar ran Ann Jones.

## 2 Sesiwn Graffu ar waith y Gweinidog

2.1 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Prif Weinidog am y goblygiadau i Gymru yn dilyn y refferendwm dros annibyniaeth yr Alban a materion o bwysigrwydd lleol i ardal gorllewin Cymru.

2.2 Gofynnodd y Cadeirydd nifer o gwestiynau i'r Prif Weinidog. Roedd y cwestiynau wedi'u cyflwyno gan y cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gan ddisgyblion nifer o ysgolion uwchradd.

## 3 Papurau i'w Nodi (15:15 - 15:20)

Nododd yr Aelodau'r ddau bapur.

3.1 3.1 Papur i'w Nodi 1

3.2 3.2 Papur i'w Nodi 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5 ar yr Agenda.

## 5 Trafod y Dystiolaeth o'r Sesiwn Flaenorol (15:20 - 15:30)

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd gan y Prif Weinidog yn ystod y sesiwn graffu yn gynharach.